**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**A GYNHALIWYD AR 23 IONAWR 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); a Mrs Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon).

**Amser Dechrau:** 10:00
**Amser Gorffen:** 15:00

**Ymddiheuriadau:** Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon);

**1. Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Briff y Cadeirydd**

2.1. Croesawodd y Cadeirydd David Burley i'r Comisiwn, fel y Rheolwr Cymorth Busnes newydd.

2.2. Rhoddwyd ymddiheuriadau am y rhai nad oeddent yn bresennol.

2.3. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar Sesiwn Dystiolaeth yr Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref a fynychwyd gan y Prif Weithredwr a Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2017**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 16 Ionawr 2017 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 1)** Y Porth Ymgynghori - bu hwyluswyr y porth yn swyddfeydd y Comisiwn wythnos ddiwethaf i ddarparu hyfforddiant i'r staff. Mae'r Porth yn fyw erbyn hyn, a rhoddir arddangosfa yn dilyn cyfarfod y Comisiwn.
- **(Mater 3)** Strategaeth TG – bydd y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Rheolwr Cymorth Busnes yn mynychu cyfarfod gyda Cymwysterau Cymru yr wythnos hon i drafod caffael a gweithredu system TG y Comisiwn yn y dyfodol.
- **(Mater 4)** Adeilad – rhoddodd y Rheolwr Cymorth Busnes ddiweddariad llafar ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r ymarferiadau tendro Goleuadau a Phaentio ac Addurno.
- **(Mater 6)** Polisïau Adnoddau Dynol – mae'r polisïau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae'r Prif Weithredwr yn cytuno unrhyw bolisïau sy'n briodol i wneud hynny, a bydd unrhyw bolisïau pellach yn cael eu rhoi gerbron cyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol i'w cytuno.

## 5. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Ionawr 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

5.2. Cytunwyd bod cam lliniaru newydd i'w ychwanegu at risg CR2 ynglŷn â'r angen am i ymarferiad recriwtio am Brif Weithredwr newydd gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2018.

5.3. Roedd y Comisiwn o'r farn fod risg weddilliol CR7 wedi'i lleihau yn dilyn trosglwydd prydles Tŷ Hastings oddi wrth Weinidogion Cymru i'r Comisiwn er y nodwyd bod telerau'r brydles yn dal yn destun cyd-drafod. **Penderfynwyd** bod y raddfa risg ar gyfer Risg CR7 yn cael ei chadw ar 16 a'i hail-werthuso ar ôl cwblhau'r trafodion ynghylch telerau'r brydles.

5.4. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 6. Adroddiad ar y Gyllideb

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Ionawr 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a bod yr arian y gyllideb wedi'i ildio'n ôl i Lywodraeth Cymru fel y cynlluniwyd. **Cytunodd** y Comisiwn i'r trosglwyddiadau

arfaethedig yng nghategorïau'r gyllideb o ganlyniad i ildio cyllid a rhai mân ddiffygion amcangyfrifedig. **Ystyriodd** y Comisiwn y lefel danwariant bresennol a'r rhesymau amdano, a **Chytunwyd** bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr i drosglwyddo cyllid refeniw i gyllid cyfalaf er mwyn talu cost amcangyfrifedig y gofynion TG ac adeiladu amcangyfrifedig.

6.3. **Penderfynwyd** bod y Rheolwr Cyllid yn mynd ar drywydd anfonebau heb eu talu o adrannau eraill y llywodraeth er mwyn lleihau'r tanwariant Staffio, a hefyd ysgrifennu at is-adran noddi Llywodraeth Cymru yn rhoi rhybudd ymlaen llaw iddynt o ofyniad cario drosodd y gyllideb amcangyfrifedig derfynol ar ddiwedd y flwyddyn.
**Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 7. Adolygu Polisi Chwythu'r Chwiban

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Ionawr 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Cytunwyd** y dylai'r polisi wedi'i ddiweddaru gael ei anfon at archwilwyr mewnol y Comisiwn er mwyn cael eu barn. Yn amodol ar rai mân ddiwygiadau a chanlyniad yr adolygiad gan yr archwilwyr mewnol, **Cytunwyd** y polisi gan y Comisiwn a phennwyd Ionawr 2021 fel Dyddiad Adolygu'r polisi.

## 8. Cyfarfod Ysgrifennydd y Cabinet – Briff Drafft

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Ionawr 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

8.2. Yn amodol ar rai man ddiwygiadau i'r briff a baratowyd, **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a **Chytunodd** i rannu'r briff gyda Llywodraeth Cymru cyn cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet.

## 9. Ymarferiad Asesu Effeithiolrwydd y Bwrdd

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Ionawr 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. **Nododd** y Comisiwn ganlyniadau Holiadur Gwerthuso'r Bwrdd ac ystyriodd feysydd i'w trafod yn y dyfodol.

## 10. Arweiniad ar Arolygon Cymunedol

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Ionawr 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

10.2. Yn amodol ar rai mân ddiwygiadau, **Cytunodd** y Comisiwn i'r ddogfen arweiniad.

## 11. Enwi Wardiau Etholiadol

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i bapur gan y Prif Weithredwr ynglŷn ag enwi wardiau etholiadol. **Cytunodd** y Comisiwn i'r drefn flaenoriaeth ganlynol wrth enwi wardiau yn y cam Cynigion Drafft:

- Yr Enw mewn Gorchymyn:
  Os nad yw'r ward etholiadol wedi newid neu os yw'n cynnwys ardal sylweddol o'r ward etholiadol bresennol yna mae'r enw presennol i'w ddefnyddio. Dylai'r enwau Cymraeg a Saesneg gyfateb i'r rheiny mewn Gorchmynion blaenorol. Dylai'r Gorchymyn diweddaraf gael blaenoriaeth (boed yn etholiadol neu'n gymunedol). Os yw'r ward etholiadol wedi'i newid yn sylweddol, ystyrir mai enw priodol yw un sy'n cynnwys un neu fwy o enwau'r cymunedau neu'r wardiau etholiadol sy'n ei ffurfio, o'r Gorchmynion cymunedol perthnasol.
- Argymhellion Comisiynydd y Gymraeg:
  Pan nad oes Gorchymyn, a bod Comisiynydd y Gymraeg wedi argymell newid, yna mae hwn i'w ddefnyddio.
- Disgresiwn y Comisiwn:
  Os nad yw'r enw mewn unrhyw Orchymyn, neu os nad yw Comisiynydd y Gymraeg wedi gwneud unrhyw argymhellion.

## 12. Arolwg Etholiadol Torfaen

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Ionawr 2018 gan y Swyddog Arolygon.

12.2. **Cytunodd** y Comisiwn Gynllun 5 ar gyfer Torfaen sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Abersychan, Blaenafon, Coed Efa, Croesyceiliog, Fairwater, Greenmeadow, Llantarnam, Dwyrain Llanyrafon a Phonthir, Gorllewin Llanyrafon, New Inn, Panteg, Pontnewydd, Pontnewynydd a Snatchwood, Pont-y-pŵl, St. Dials, Trefddyn a Penygarn, Two Locks, Cwmbrân Uchaf, a Waunfelin

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol ar draws y Fwrdeistref Sirol
- Mae'n cyflawni'r Nod o ran Maint Cynghorau
- Mae'n parchu'r gwrthwynebiad i uno wardiau Northville a Southville â'i gilydd, a oedd yn amlwg mewn nifer o gynrychiolaethau a dderbyniwyd.

12.3. Bydd yr enwau arfaethedig yn cael eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg i gael sylwadau cyn cyflwyno'r Adroddiad Cynigion Drafft gerbron y cyfarfod nesaf o'r Comisiwn.

**13. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Ionawr 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

13.2. Briffiwyd y Comisiwn gan y Prif Weithredwr ar gynnydd hyd yn hyn o ran yr Arolwg Cymunedol arfaethedig o Sir Fynwy y mae'r Cyngor yn ei gynnal. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn parhau i gysylltu â'r Cyngor i asesu beth fyddai'r amserlen ar gyfer yr arolwg a sut fyddai'n effeithio ar y rhaglen arolygon gyffredinol o ganlyniad i'r oedi hwn.

**14. Adolygu'r Polisi Cwynion**

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Ionawr 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

14.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, ac yn amodol ar ychydig o fân newidiadau, **Cytunodd** i fabwysiadu'r polisi. Mae dyddiad adolygu ar gyfer Ionawr 2021 wedi'i nodi.

**15. Calendr Digwyddiadau**

15.1. **Nodwyd** y calendr gan y Comisiwn.

**16. Unrhyw Fusnes Arall**

16.1. Adroddwyd bod yr is-adran noddi wedi hysbysu'r Comisiwn fod gan Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yr awdurdod dirprwyedig i wyro o weithdrefnau caffael arferol. Gofynnodd y Rheolwr Cymorth Busnes i'r Comisiwn gytuno i ymestyn y contractau cyfrifyddu a chyfieithu am gyfnod pellach o 12 mis. **Cytunodd** y

Comisiwn i ymestyn y contractau am 12 mis arall, ac ar ôl hynny byddai ymarferiad tendro llawn yn cael ei gynnal ar gyfer pob un ohonynt.

16.2. Amcanion Corfforaethol 2017/2018 – Rhoddwyd ystyriaeth i Amcanion Corfforaethol y Comisiwn, ac aseswyd y graddau y maent wedi'u cyflawni yn 2017/2018. Nodwyd amcanion a gwblhawyd yn llwyddiannus, yn ogystal â meysydd y mae angen rhoi sylw pellach iddynt. **Cytunodd** y Comisiwn i gynnwys yr asesiad yn yr adroddiad blynyddol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 20 Chwefror 2018**